# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol









# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Gwella Ansawdd yn Barhaus** | **4** |
| **Y Broses o Wella Ansawdd** | **5** |
| **Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol hwn** | **7** |
| **Templedi Defnyddiol** | **8** |
| **Cwestiynau Myfyriol** | **10** |
| **Cofnodi Sylwadau** | **40** |
| **Gwneud Newidiadau** | **41** |
| **Crynodeb Ansawdd** | **42** |
| **Gwneud cynlluniau** | **45** |
| **Adnodd myfyrio i ymarferwyr** | **46** |
| **Adnodd myfyrio i dimau** | **47** |




OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49037, ISBN digidol 978-1-83625-195-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Dylai darpariaeth chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel yng Nghymru fod yn seiliedig ar awydd gwirioneddol i wella ymarfer a deilliannau plant yn barhaus. Dylid caniatáu i fabanod a phlant ifanc ffynnu ar eu cyflymder eu hunain, drwy chwarae a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb.

Mae'n bwysig ein bod yn myfyrio ar ymarfer a darpariaeth gynhwysol: mae'n gwella ein gwybodaeth, ein dealltwriaeth a'n sgiliau ac mae hefyd yn hanfodol er mwyn cefnogi gofal a datblygiad pob baban a phlentyn ifanc yn ein lleoliad neu ein hysgol. Dylai ein helpu i nodi'r hyn rydym yn ei wneud yn dda, ble y gall fod angen rhagor o gymorth arnom, ble mae angen inni atgyfnerthu ein gwybodaeth er mwyn cefnogi ein hymarfer, a ble y gallwn rannu ein proffesiynoldeb ag eraill.

Datblygwyd y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol hwn i helpu unigolion a thimau i fyfyrio ar ansawdd chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar. Mae'n dwyn ynghyd y gwahanol ofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r math o ddarpariaeth gofal, addysg a chwarae o ansawdd uchel sydd ei hangen yng Nghymru. Dylai defnyddio'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol sicrhau ein bod yn cynnig dulliau llwyddiannus sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth dda o ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar, gan ein helpu i fyfyrio ar ein hymarfer a'i wella'n barhaus er mwyn rhoi cymorth gwell i bob plentyn ffynnu.

## Pwy ddylai ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn?

- Arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant
- Rhieni a gofalwyr
- Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a byrddau iechyd
- Arolygiaethau
- Sefydliadau yn y trydydd sector



# Gwella Ansawdd yn Barhaus

Mae bod yn ymarferydd myfyriol yn ein helpu i ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud, a'r rheswm pam. Ochr yn ochr â hyn, gall ymarfer myfyriol ein helpu i nodi ein cryfderau allweddol, ynghyd â meysydd y gallwn eu gwella. Pan fyddwn yn neilltuo amser i fyfyrio'n bwrpasol ar ein hymarfer a'n darpariaeth, gallwn ddechrau meddwl mewn ffyrdd gwahanol a meithrin dealltwriaeth gliriach o'r hyn y mae angen inni ei gyflawni, a'r hyn rydym am ei gyflawni.



Er mwyn llywio ein gwerthusiadau o ansawdd ein hymarfer a'n darpariaeth, gallem ystyried cwestiynau allweddol fel:

- Beth rydym yn ei wybod, ac yn awyddus i'w wybod?
- Beth rydym yn ei feddwl, yn ei deimlo, yn ei gredu ac yn ei werthfawrogi?
- Sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ymarfer?
- Beth yw barn eraill amdanom?
- Sut y gallwn wella?

Rhaid i wella ansawdd ac ymarfer myfyriol fod yn broses bwrpasol barhaus. Dylem ystyried safbwyntiau gwahanol, gan nodi'r agweddau cadarnhaol a meysydd lle y gellir dysgu, er mwyn ein helpu i fod yn fwy cynhwysol. Dylai ymarfer myfyriol fod yn agwedd annatod ar y ffordd rydym yn sicrhau chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel. Drwy neilltuo'r amser i fyfyrio ar ansawdd yn rheolaidd, gallwn ddatblygu fel gweithwyr proffesiynol yn ogystal â gwella deilliannau i fabanod a phlant bach.

# Y Broses o Wella Ansawdd

## Darganfod

Bydd tystiolaeth ac atebion i gwestiynau myfyriol yn dod o nifer o ffynonellau, er enghraifft, arsylwadau, safbwyntiau plant, staff a theuluoedd a data amrywiol. Mae'n bwysig cofnodi amrywiaeth o dystiolaeth i ateb ein cwestiynau'n drwyadl, yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd partneriaethau a chydweithio i gefnogi gwelliannau. Dylai ein hamrywiaeth o dystiolaeth ein helpu i gadarnhau beth rydym yn ei wneud yn dda a beth mae angen inni ei wella.

## Ystyried

Mae bod yn ymwybodol o'n cryfderau a meysydd i'w datblygu yn ein galluogi i wella ac ymgorffori arfer dda nawr, ac ar yr un pryd yn ein hannog i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Dylem ystyried effaith a manteision posibl unrhyw welliannau ar ddeilliannau babanod a phlant ifanc. Ar y cam hwn o'r broses, dylem hefyd ystyried beth mae angen inni ei flaenoriaethu er mwyn i ni allu datblygu cynlluniau gwella clir, penodol ac effeithiol.

## Paratoi cynlluniau

Trwy ddefnyddio cynlluniau fel rhan o'n cylch gwerthuso a gwelliannau byddwn yn dangos sut rydym yn ymdrechu i fod yn well. Mae'n bwysig rhoi blaenoriaeth i gynlluniau dros gyfnod realistig o amser, o ystyried y staff, yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael. Er mwyn sicrhau bod y broses o welliant parhaus a chynhwysol mor effeithiol â phosibl, dylai unrhyw gynlluniau gael eu llunio mewn partneriaeth ag arweinwyr y lleoliad a/neu'r ysgol a'r staff, y plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.


Wrth greu cynlluniau gwella, dylem ystyried y cwestiynau canlynol:

- A ydym wedi nodi'r holl gamau gweithredu y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyflawni'r gwelliannau?
- A yw'r camau yn glir ac yn benodol? A ydym yn gwybod yn union beth rydym yn bwriadu ei wneud a phwy fydd yn ei wneud?
- Sut y bydd y camau yn arwain at y meini prawf llwyddiant a'r deilliannau gofynnol?
- Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyrraedd y nod?

# Cyflawni pethau

Mae hefyd yn bwysig deall a monitro cynnydd unrhyw gynlluniau gwella. Monitro yw'r broses barhaus o asesu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a'r meini prawf llwyddiant rydym wedi cynllunio ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu chwilio am dystiolaeth fesuradwy sy'n dangos i ba raddau y mae'r lleoliad neu'r ysgol wedi cyflawni'r hyn yr oedd wedi bwriadu ei gyflawni.

Gellir monitro mewn nifer o ffyrdd, yn dibynnu ar y cam gweithredu neu'r targed, ond dylem ofalu ein bod hefyd yn cynnwys mesur unrhyw effaith ar ddeilliannau'r plant o fewn ein cynlluniau. Rhaid deall bod monitro ac arferion gwrth-hiliol yn berthnasol i bob darpariaeth, beth bynnag yw demograffeg amrywiaeth bresennol yr ysgol neu leoliad. Dylid edrych eto ar gynlluniau gwella, tystiolaeth ac adnoddau monitro ymhen amser, fel rhan o'r broses o welliant parhaus a chynnal ymarfer a darpariaeth o ansawdd uchel.



# Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol hwn

Gellir defnyddio'r Pecyn Cymorth fel canllaw arferion gorau mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn unigol, at ddibenion hunanfyfyrio a gwybodaeth, gydag eraill i fyfyrio ar ymarfer a'i gymedroli, a hefyd er mwyn cefnogi a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru.

Mae'r Safonau Ansawdd a nodir yn y Pecyn Cymorth yn seiliedig ar ymchwil ac ymarfer cenedlaethol a rhyngwladol o ddarpariaeth chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar effeithiol. Maent yn cynnwys saith thema ansawdd sy'n bwysig i ddeilliannau babanod a phlant ifanc. Mae'r Safonau Ansawdd yn ein helpu i weithio gyda'n gilydd a gwerthuso ein hymarfer a'n darpariaeth yn ôl safon genedlaethol o chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Mae codau lliw wedi cael eu cynnwys i helpu'r broses o welliant parhaus a chysylltu dogfennaeth a thystiolaeth â'i gilydd.



## Thema Ansawdd

- Lles
- Teuluoedd, y gymuned a phartneriaethau
- Gofal a datblygiad
- Chwarae a dysgu
- Amgylcheddau
- Cymorth a dysgu proffesiynol
- Arweinwyr

# Templedi Defnyddiol

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddogfennau i'n helpu i hunanwerthuso a myfyrio, cynllunio a monitro ar gyfer gwella ansawdd yn barhaus.

Yr adnoddau a gynhwysir yw:

## Darganfod

**Cwestiynau myfyriol,** sy'n seiliedig ar y Safonau Ansawdd i gefnogi a mireinio ein syniadau. Drwy ddefnyddio'r rhain byddwn yn gallu nodi, ystyried a blaenoriaethu'r materion rydym am eu gwella yn ogystal â chynnal ein darpariaeth bresennol o ansawdd uchel.

Gellir ystyried y **cwestiynau myfyriol** yn eu cyfanrwydd neu eu rhannu'n themâu, yn gamau neu'n Safonau Ansawdd unigol. Drwy hyn gellir canolbwyntio ar fyfyrdodau mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y ddarpariaeth.

O fewn pob ystod oedran ceir cwestiynau i lywio ffyrdd o feddwl ynghylch pob safon ansawdd. Bydd yr atebion y byddwn yn eu rhoi yn helpu i nodi'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y gall fod angen inni ei ddatblygu er mwyn inni allu cynnig yr addysg a'r gofal gorau posibl i bob baban, plentyn bach a phlentyn ifanc. Mae angen barn ac arbenigedd proffesiynol hefyd er mwyn symud o'r wybodaeth a gasglwn i wneud penderfyniadau ar sail yr wybodaeth honno ynglŷn â sut i ddatblygu a gwella.

Bydd adnoddau mesur ansawdd safonol ar gyfer lleoliadau gofal plant cynnar ac ysgolion hefyd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ac yn ffurfio rhan o'r broses o welliant parhaus. Gall yr adnoddau hyn hefyd gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r Pecyn Cymorth hwn i gefnogi rhyngweithiadau, amgylcheddau a phrofiadau o ansawdd uchel.

| Camau | Oedran | Llwybr Datblygiad |
|---|---|---|
| Baban | 0-1 | Dyma fi! |
| Plentyn bach | 1-2 | Dwi'n archwilio! |
| | 2-3 | Edrycha arna i nawr! |
| Plentyn ifanc | 3-5 | Edrycha arna i'n mynd! |
| | | Dyma fi'n dod! |

## Ystyried

- Mae **cofnodi sylwadau** yn ein hannog i gofnodi ein hymarfer, ein harsylwadau, ein meddyliau a'n sylwadau a myfyrio arnynt, naill ai'n unigol fel rhan o dîm.
- Mae'r **Crynodeb ansawdd** yn ein helpu i nodi'r hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen inni ei wella o dan bob thema. Er enghraifft, efallai y bydd yn adnodd defnyddiol i arweinwyr tîm er mwyn cofnodi lleisiau ymarferwyr. Dylem bob amser ystyried yr effaith ar ddeilliannau plant wrth grynhoi ansawdd ein gofal a'n haddysg.
- Mae **gwneud newidiadau** yn ein helpu i gofnodi sut y byddwn yn mynd ati i wella ymarfer a darpariaeth.

## Paratoi Cynlluniau

Mae'r **Cynllun Gwella** wedi cael ei gynnwys i helpu i gyflwyno datblygiadau'n effeithiol. Mae'n ein helpu i greu cynlluniau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol), gyda chwestiynau sy'n cefnogi ac yn llywio'r broses gynllunio.

## Cyflawni pethau

Bydd yr **adnodd myfyrio i ymarferwyr** a'r **adnodd myfyrio i leoliadau** yn helpu ymarferwyr a thimau i fonitro ac ystyried gwelliannau, dysgu proffesiynol a'r camau nesaf o'r cylch gwelliant parhaus. Dylid edrych eto ar y rhain dros amser er mwyn sicrhau y myfyrir ar y camau nesaf a bod y cylch gwella yn parhau.

# Cwestiynau Myfyriol

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn sicrhau y caiff hawliau pob baban a phlentyn bach eu parchu. | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu hawliau unigol pob baban?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n profiadau sy'n ennyn diddordeb yn cefnogi hawliau babanod?<br>• I ba raddau y gwrandewir ar fabanod a sut y caiff eu hymdrechion i gyfathrebu eu gwerthfawrogi (gan gynnwys cyfathrebu geiriol a dieiriau ac iaith y cartref)?<br>• I ba raddau rydym yn gwrando ar lais y baban ac yn ei ddefnyddio o fewn ein cynllunio a'n darpariaeth?<br>• Sut mae lleisiau babanod sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu hawliau pob plentyn bach unigol?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n profiadau sy'n ennyn diddordeb yn cefnogi hawliau plant bach?<br>• I ba raddau y gwrandewir ar blant bach a sut y caiff eu hymdrechion i gyfathrebu eu gwerthfawrogi (gan gynnwys cyfathrebu geiriol a dieiriau ac iaith y cartref)?<br>• I ba raddau rydym yn gwrando ar lais y plentyn bach ac yn ei ddefnyddio o fewn ein cynllunio a'n darpariaeth?<br>• Sut mae lleisiau plant bach sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu hawliau pob plentyn ifanc unigol?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n profiadau sy'n ennyn diddordeb yn cefnogi hawliau plant ifanc?<br>• I ba raddau y gwrandewir ar blant ifanc a sut y caiff eu hymdrechion i gyfathrebu eu gwerthfawrogi (gan gynnwys cyfathrebu geiriol a dieiriau ac iaith y cartref)?<br>• I ba raddau rydym yn gwrando ar lais y plentyn ifanc ac yn ei ddefnyddio o fewn ein cynllunio a'n darpariaeth?<br>• Sut mae lleisiau plant ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi!<br>(0-1 oed) | Dwi'n archwilio!<br>Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd,<br>dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | Rydym yn sicrhau bod ein harferion beunyddiol yn cefnogi anghenion, datblygiad a diddordebau babanod a phlant ifanc. | • I ba raddau mae ein harferion ni yn adeiladu ar arferion gofal y cartref? I ba raddau rydym yn casglu'r wybodaeth hon?<br>• I ba raddau rydym yn cydbwyso arferion beunyddiol personol pob baban gan ganiatáu amser hamddenol?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff babanod gyfleoedd i wneud dewisiadau drwy'r drefn feunyddiol ac wrth chwarae?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n hadnoddau yn atgyfnerthu neu'n herio meddylfryd ystrydebol a rhagfarn ddiarwybod? | • I ba raddau mae ein harferion ni yn adeiladu ar arferion gofal y cartref? I ba raddau rydym yn casglu'r wybodaeth hon?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi arferion beunyddiol unigol ar waith ar gyfer pob plentyn bach?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff plant bach gyfleoedd i wneud dewisiadau drwy'r drefn feunyddiol ac wrth chwarae?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n hadnoddau yn atgyfnerthu neu'n herio meddylfryd ystrydebol a rhagfarn ddiarwybod? | • I ba raddau mae ein harferion ni yn adeiladu ar arferion gofal y cartref? I ba raddau rydym yn casglu'r wybodaeth hon?<br>• Sut rydym yn rhoi arferion beunyddiol unigol ar waith ar gyfer pob plentyn ifanc?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff plant ifanc gyfleoedd i wneud dewisiadau drwy'r arferion beunyddiol ac wrth chwarae?<br>• I ba raddau mae ein harferion beunyddiol a'n hadnoddau yn atgyfnerthu neu'n herio meddylfryd ystrydebol a rhagfarn ddiarwybod? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn annog rhieni/gofalwyr i gydweithio â ni i gefnogi anghenion eu plentyn. | • Pa mor groesawgar yw'r feithrinfa/lleoliad? Sut ydym ni'n gwybod?<br>• A yw'r feithrinfa/lleoliad yn hygyrch ac yn groesawgar i wahanol fathau o deuluoedd?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr yn ystod cyfnod pontio eu baban i mewn i'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio sesiynau cynefino wedi'u cynllunio i hwyluso'r cyfnod pontio?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi'r rhieni/gofalwyr a'r baban yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol.<br>• I ba raddau rydym yn casglu gwybodaeth am y baban, e.e. defnyddio cynlluniau gofal a rennir neu ddogfennau tebyg?<br>• Pa mor effeithiol yw ein cymorth ar gyfer cyfnodau pontio parhaus, i mewn i leoliadau a rhyngddynt?<br>• Sut ydym ni'n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod y feithrinfa/lleoliad yn adlewyrchu'r gymuned?<br>• Pa mor dda mae'r feithrinfa/lleoliad yn cefnogi teuluoedd plant ag anghenion cymorth ychwanegol? | • Pa mor groesawgar yw'r feithrinfa/lleoliad? Sut ydym ni'n gwybod?<br>• A yw'r feithrinfa/lleoliad yn hygyrch ac yn groesawgar i wahanol fathau o deuluoedd?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr yn ystod cyfnod pontio eu plentyn bach i mewn i'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio sesiynau cynefino wedi'u cynllunio i hwyluso'r cyfnod pontio?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn bach yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol.<br>• I ba raddau rydym yn casglu gwybodaeth am y plentyn bach, e.e. defnyddio cynlluniau gofal a rennir neu ddogfennau tebyg?<br>• Pa mor effeithiol yw ein cymorth ar gyfer cyfnodau pontio parhaus, i mewn i leoliadau a rhyngddynt?<br>• Sut ydym ni'n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod y feithrinfa/lleoliad yn adlewyrchu'r gymuned?<br>• Pa mor dda mae'r feithrinfa/lleoliad yn cefnogi teuluoedd plant ag anghenion cymorth ychwanegol? | • Pa mor groesawgar yw'r feithrinfa/lleoliad? Sut ydym ni'n gwybod?<br>• A yw'r feithrinfa/lleoliad yn hygyrch ac yn groesawgar i wahanol fathau o deuluoedd?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr yn ystod cyfnod pontio eu plentyn ifanc i mewn i'r lleoliad a/neu'r ysgol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio sesiynau cynefino wedi'u cynllunio i hwyluso'r cyfnod pontio?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn ifanc yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol.<br>• I ba raddau rydym yn casglu gwybodaeth am y plentyn ifanc, e.e. defnyddio cynlluniau gofal a rennir neu ddogfennau tebyg?<br>• Pa mor effeithiol yw ein cymorth ar gyfer cyfnodau pontio parhaus, i mewn i leoliadau ac ysgolion a rhyngddynt?<br>• Sut ydym ni'n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod y feithrinfa/lleoliad yn adlewyrchu'r gymuned?<br>• Pa mor dda mae'r feithrinfa/lleoliad yn cefnogi teuluoedd plant ag anghenion cymorth ychwanegol? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae babanod a phlant ifanc yn meithrin ymlyniadau cadarnhaol. | • I ba raddau y caiff ymlyniadau cadarnhaol eu meithrin a'u hannog? Er enghraifft, sut rydym yn ystyried gofal ymatebol?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff pob baban yr un cyfleoedd i feithrin ymlyniadau cadarnhaol a chymryd rhan mewn profiadau sy'n unigryw iddynt?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff babanod eu bwydo a'u newid gan oedolyn cyson drwy'r dydd/sesiwn? | • I ba raddau rydym yn meithrin ymlyniadau cadarnhaol a sut y caiff y rhain eu defnyddio i gefnogi lles y plentyn bach?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff pob plentyn bach yr un cyfleoedd i feithrin ymlyniadau cadarnhaol a chymryd rhan mewn profiadau sy'n unigryw iddynt?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod plant bach yn ymgysylltu ag oedolyn cyson drwy'r dydd/sesiwn? (Dylai hyn gynnwys bwydo a newid ar gyfer plant 1-2 oed). | • I ba raddau rydym yn meithrin ymlyniadau cadarnhaol a sut y caiff y rhain eu defnyddio i gefnogi lles y plentyn ifanc?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod pob plentyn ifanc yn cael yr un cyfleoedd i feithrin ymlyniadau cadarnhaol a chymryd rhan mewn profiadau sy'n unigryw iddynt?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod plant ifanc yn ymgysylltu ag oedolyn cyson drwy'r dydd/sesiwn? |
| Rydym yn sicrhau bod ein hymarfer a'n darpariaeth yn cefnogi lles pob baban a phlentyn ifanc. | • I ba raddau rydym yn cefnogi ac yn datblygu iechyd a lles babanod drwy ofal a phrofiadau seiliedig ar chwarae?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o rai o'r geiriau a ddefnyddir yn iaith cartref y baban, a'n bod ni yn eu defnyddio?<br>• Sut y caiff babanod eu canmol a'u hannog?<br>• I ba raddau y mae babanod yn ein lleoliad yn meithrin ymdeimlad o hunaniaeth, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a pherthyn ac yn meithrin gwydnwch?<br>• I ba raddau rydym yn rheoli cyfleoedd ar gyfer amser grŵp a phrofiadau un un i feithrin ymdeimlad o hunan? | • I ba raddau rydym yn cefnogi ac yn datblygu iechyd a lles plant bach drwy ofal a phrofiadau seiliedig ar chwarae?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o rai o'r geiriau a ddefnyddir yn iaith cartref y plentyn bach, a'n bod ni yn eu defnyddio?<br>• Sut rydym yn canmol ac yn annog plant bach, a pham?<br>• I ba raddau y mae plant bach yn ein lleoliad yn datblygu ymdeimlad o hunaniaeth, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a pherthyn ac yn meithrin gwydnwch?<br>• I ba raddau rydym yn rheoli cyfleoedd ar gyfer amser grŵp a phrofiadau un i un i feithrin ymdeimlad o hunan? | • I ba raddau rydym yn cefnogi ac yn datblygu iechyd a lles plant ifanc drwy'r drefn feunyddiol a phrofiadau seiliedig ar chwarae?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o rai o'r geiriau a ddefnyddir yn iaith cartref y plentyn ifanc, a'n bod yn eu defnyddio?<br>• Sut rydym yn canmol ac yn annog plant ifanc, a pham?<br>• I ba raddau y mae plant ifanc yn ein lleoliad neu'n hysgol yn datblygu ymdeimlad o hunaniaeth, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a pherthyn ac yn meithrin gwydnwch?<br>• I ba raddau rydym yn rheoli cyfleoedd ar gyfer amser grŵp a phrofiadau un i un i feithrin ymdeimlad o hunan? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae ein hamgylcheddau yn helpu babanod a phlant ifanc i feithrin ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth, ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. | • I ba raddau rydym yn helpu babanod i fod yn egnïol, yn frwdfrydig ac yn chwilfrydig. Sut rydym yn gwybod beth sy'n eu diddori fwyaf?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi digon o amser i fabanod ddyfalbarhau? I ba raddau rydym yn cynnal eu diddordebau a'u chwilfrydedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu adnoddau ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd babanod am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol?<br>• I ba raddau y mae'r adnoddau a gynigir wir yn cynrychioli'r holl deuluoedd a chymunedau sy'n byw yn yr ardal leol ac yng Nghymru, a hefyd yn y byd ehangach? Sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd a'r gymuned yn rheolaidd i sicrhau dilysrwydd yn hyn o beth? | • I ba raddau rydym yn helpu plant bach i fod yn egnïol, yn frwdfrydig ac yn chwilfrydig? Sut rydym yn gwybod beth sy'n eu diddori fwyaf?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi digon o amser i blant bach ddyfalbarhau? I ba raddau rydym yn cynnal eu diddordebau, eu harchwiliadau a'u chwilfrydedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu adnoddau ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd plant bach am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol?<br>• I ba raddau y mae'r adnoddau a gynigir wir yn cynrychioli'r holl deuluoedd a chymunedau sy'n byw yn yr ardal leol ac yng Nghymru, a hefyd yn y byd ehangach? Sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd a'r gymuned yn rheolaidd i sicrhau dilysrwydd yn hyn o beth? | • I ba raddau rydym yn helpu plant ifanc i fod yn egnïol, yn frwdfrydig ac yn chwilfrydig. Sut rydym yn gwybod beth sy'n ennyn eu diddordeb fwyaf?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi digon o amser i blant ifanc ddyfalbarhau? I ba raddau rydym yn cynnal eu diddordebau, eu harchwiliadau a'u chwilfrydedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu adnoddau ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd plant ifanc am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol?<br>• I ba raddau y mae'r adnoddau a gynigir wir yn cynrychioli'r holl deuluoedd a chymunedau sy'n byw yn yr ardal leol ac yng Nghymru, a hefyd yn y byd ehangach? Sut rydym yn gweithio gyda theuluoedd a'r gymuned yn rheolaidd i sicrhau dilysrwydd yn hyn o beth? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i'w galluogi i wneud dewis gwybodus am y gwasanaeth chwarae, dysgu neu ofal plentyndod cynnar sydd ei angen arnynt. | • Sut rydym yn sicrhau bod ein holl lwyfannau gwybodaeth yn gyfredol, e.e. gwefan, llawlyfr rhieni, hysbysfyrddau?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am ein polisïau a'n gweithdrefnau?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr ym mywyd y lleoliad? Sut rydym yn rhoi gwybod iddynt sut y gallant ein cefnogi? | • Sut rydym yn sicrhau bod ein holl lwyfannau gwybodaeth yn gyfredol, e.e. gwefan, llawlyfr rhieni, hysbysfyrddau?<br>• Pa mor effeithiol rydym wrth roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am ein polisïau a'n gweithdrefnau?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr ym mywyd y lleoliad? Sut rydym yn rhoi gwybod iddynt sut y gallant ein cefnogi? | • Sut rydym yn sicrhau bod ein holl lwyfannau gwybodaeth yn gyfredol, e.e. gwefan, llawlyfr rhieni, hysbysfyrddau?<br>• Pa mor effeithiol rydym wrth roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am ein polisïau a'n gweithdrefnau?<br>• I ba raddau rydym yn cynnwys rhieni/gofalwyr ym mywyd y lleoliad neu'r ysgol? Sut rydym yn rhoi gwybod iddynt sut y gallant ein cefnogi? |
| Rydym yn rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am bob agwedd ar ofal, datblygiad a chynnydd eu baban neu blentyn ifanc. | • I ba raddau rydym yn rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr am gynnydd eu baban?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am ddiwrnod eu baban, gan gynnwys ei anghenion gofal a'i arferion beunyddiol?<br>• Sut rydym yn gwybod bod yr wybodaeth rydym yn ei rhannu yn ystyrlon i bawb? | • I ba raddau rydym yn rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn bach?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am ddiwrnod eu plentyn bach, gan gynnwys ei anghenion gofal a'i arferion beunyddiol (ar gyfer plant bach 1-2 oed)?<br>• Sut rydym yn gwybod bod yr wybodaeth rydym yn ei rhannu yn ystyrlon i bawb? | • I ba raddau rydym yn rhannu gwybodaeth â rhieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am ddiwrnod eu plentyn ifanc? Sut rydym yn ystyried yr hyn y mae angen inni ei ddweud wrth rieni/gofalwyr bob dydd a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar ein hymarfer?<br>• Sut rydym yn gwybod bod yr wybodaeth rydym yn ei rhannu yn ystyrlon i bawb? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | Rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael, gan eu galluogi i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u grymuso. Rydym yn cydnabod teuluoedd a chymunedau yn y byd ehangach. | • I ba raddau rydym yn cefnogi rhieni/gofalwyr gyda'r dewisiadau y maent yn eu gwneud?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth a/neu'r wybodaeth a allai fod o fudd iddynt?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y cymorth a'r wybodaeth rydym yn eu darparu yn gyfredol ac yn briodol?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried anghenion cyfathrebu rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi? | • I ba raddau rydym yn cydnabod ac yn cefnogi rhieni/gofalwyr drwy gamau datblygu gwahanol eu plentyn bach?<br>• I ba raddau rydym yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi anghenion ac arddulliau magu plant unigol rhieni/gofalwyr?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y cymorth a'r wybodaeth rydym yn eu rhoi yn gyfredol ac yn briodol?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried anghenion cyfathrebu rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi? | • I ba raddau rydym yn cydnabod ac yn cefnogi rhieni/gofalwyr drwy gamau datblygu gwahanol eu plentyn ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi anghenion ac arddulliau magu plant unigol rhieni/gofalwyr?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y cymorth a'r wybodaeth rydym yn eu rhoi yn gyfredol ac yn briodol?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried anghenion cyfathrebu rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi? |
| | Rydym yn defnyddio ein cymuned i feithrin ymdeimlad pob baban a phlant ifanc o berthyn. | • I ba raddau rydym yn gwybod sut beth yw ymdeimlad o berthyn i faban yn ein lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein cymuned leol i feithrin ymdeimlad o le ymhlith ein babanod?<br>• Pa mor effeithiol yw ymwelwyr o bob cwr o'r gymuned leol wrth gefnogi ymdeimlad ein babanod o berthyn? | • I ba raddau rydym yn gwybod sut beth yw ymdeimlad o berthyn i blentyn bach yn ein lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein cymuned leol i feithrin ymdeimlad o le ymhlith ein plant bach?<br>• Pa mor effeithiol yw ymwelwyr o bob cwr o'r gymuned leol wrth gefnogi ymdeimlad ein plant bach o berthyn? | • I ba raddau rydym yn gwybod sut beth yw ymdeimlad o berthyn i blentyn ifanc yn ein lleoliad neu yn ein hysgol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein cymuned leol i feithrin ymdeimlad o le ymhlith ein plant ifanc?<br>• Pa mor effeithiol yw ymwelwyr o bob cwr o'r gymuned leol wrth gefnogi ymdeimlad ein plant ifanc o berthyn? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau y caiff anghenion pob baban a phlentyn ifanc eu diwallu. | • Pa mor llwyddiannus ydyn ni wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i gynnal ystod lawn o gofnodion er mwyn sicrhau iechyd a lles pob baban a sicrhau y caiff y lleoliad ei redeg yn ddidrafferth?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff cofnodion pob baban eu storio'n gyfrinachol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein holl gofnodion yn gyfredol, a bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi cyfathrebu, ymddiriedaeth a pharch rhwng ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol? A ydym yn glir ynghylch ein rolau a'n cyfrifoldebau wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a phartneriaid? | • Pa mor llwyddiannus ydyn ni wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i gynnal ystod lawn o gofnodion er mwyn sicrhau iechyd a lles pob plentyn bach a sicrhau y caiff y lleoliad ei redeg yn ddidrafferth?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff cofnodion pob plentyn bach eu storio'n gyfrinachol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein holl gofnodion yn gyfredol, a bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi cyfathrebu, ymddiriedaeth a pharch rhwng ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol? A ydym yn glir ynghylch ein rolau a'n cyfrifoldebau wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a phartneriaid?<br>• A ydym yn cynnwys partneriaid lleol a/neu genedlaethol gyda chymuned y feithrinfa/lleoliad i gefnogi tegwch? | • Pa mor llwyddiannus ydyn ni wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i gynnal ystod lawn o gofnodion er mwyn sicrhau iechyd a lles pob plentyn ifanc a sicrhau y caiff y lleoliad neu'r ysgol ei redeg/rhedeg yn ddidrafferth?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff cofnodion pob plentyn ifanc eu storio'n gyfrinachol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein holl gofnodion yn gyfredol, a bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi cyfathrebu, ymddiriedaeth a pharch rhwng ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol? A ydym yn glir ynghylch ein rolau a'n cyfrifoldebau wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr a phartneriaid?<br>• A ydym yn cynnwys partneriaid lleol a/neu genedlaethol gyda chymuned y feithrinfa/lleoliad i gefnogi tegwch? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Caiff pob baban a phlentyn ifanc ei ddiogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cymryd pob cam posibl i ddiogelu pob baban sy'n mynychu ein lleoliad?<br>• I ba raddau mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth diogelu a'r canllawiau diweddaraf yng Nghymru?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein harferion diogel, sy'n benodol i fabanod, yn gyfredol?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'n polisi diogelu? A yw hwn yn hygyrch?<br>• I ba raddau mae'r staff yn deall at bwy y gallant droi os byddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus, neu'n poeni am ddiogelwch neu iechyd baban?<br>• Pa mor effeithiol yw ein partneriaethau â gweithwyr proffesiynol eraill wrth gadw babanod yn ddiogel? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cymryd pob cam posibl i ddiogelu pob plentyn bach sy'n mynychu ein lleoliad?<br>• I ba raddau mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth diogelu a'r canllawiau diweddaraf yng Nghymru?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein harferion diogel, sy'n benodol i blant bach, yn gyfredol?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'n polisi diogelu? A yw hwn yn hygyrch?<br>• I ba raddau mae pob plentyn bach ac aelod o staff yn deall at bwy y gallant droi os byddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus?<br>• Pa mor effeithiol yw ein partneriaethau â gweithwyr proffesiynol eraill wrth gadw plant bach yn ddiogel? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cymryd pob cam posibl i ddiogelu pob plentyn ifanc sy'n mynychu ein lleoliad neu ysgol?<br>• I ba raddau mae ein polisïau a'n gweithdrefnau yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth diogelu a'r canllawiau diweddaraf ym maes addysg a gofal yng Nghymru?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein harferion diogel, sy'n bendodol i blant ifanc, yn gyfredol?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'n polisi diogelu? A yw hwn yn hygyrch?<br>• I ba raddau mae pob plentyn ifanc ac aelod o staff yn deall at bwy y gallant droi os byddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus?<br>• Pa mor effeithiol yw ein partneriaethau â gweithwyr proffesiynol eraill wrth gadw plant ifanc yn ddiogel? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae'r babanod a'r plant bach yn cael gofal da yn ystod arferion gofal personol a defnyddio'r toiled. | • I ba raddau y mae ein polisi newid cewynnau yn diwallu anghenion pob baban?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y baban eu parchu yn ystod arferion gofal personol?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hamgylchedd newid cewynnau yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru? | • I ba raddau y mae ein polisïau newid cewynnau a defnyddio'r toiled yn diwallu anghenion pob plentyn bach?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas pob plentyn bach eu parchu yn ystod arferion defnyddio'r toiled a gofal personol?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hamgylchedd, sy'n ymwneud â'r tŷ bach a gofal personol, yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru?<br>• Pa mor effeithiol yw ein cymorth ar gyfer hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled? I ba raddau rydym yn cefnogi plant bach a rhieni/gofalwyr yn ystod arferion hyfforddiant tŷ bach, a gofal personol? | • I ba raddau y mae ein polisi ar ddefnyddio'r toiled yn diwallu anghenion pob plentyn ifanc?<br>• Sut rydym yn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas pob plentyn ifanc eu parchu yn ystod arferion defnyddio'r toiled a gofal personol?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hamgylchedd, sy'n ymwneud â'r tŷ bach a gofal personol, yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru?<br>• Pa mor effeithiol yw ein cymorth ar gyfer hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled? I ba raddau rydym yn cefnogi plant ifanc a rhieni/gofalwyr yn ystod arferion hyfforddiant tŷ bach, a gofal personol? |
| Mae pob plentyn yn cael digon o gyfleoedd pwrpasol i orffwys ac ymlacio mewn amgylchedd tawel. | • I ba raddau rydym yn trefnu ardal briodol i fodloni patrymau cysgu baban unigol? A yw'n ddigonol i bob baban yn ein gofal?<br>• Pa mor effeithiol yw ein prosesau i sicrhau y cedwir golwg parhaus ar fabanod sy'n cysgu? A ydym yn deall pam mae pob un o'r prosesau hyn ar waith?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hardaloedd cysgu yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru? | • I ba raddau rydym yn trefnu ardal briodol i fodloni patrymau cysgu unigol plentyn bach. A yw'n ddigonol i bob plentyn bach yn ein gofal?<br>• Pa mor effeithiol yw ein prosesau i sicrhau y cedwir golwg parhaus ar blant bach sy'n cysgu? A ydym yn deall pam mae pob un o'r prosesau hyn ar waith?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hardaloedd cysgu yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru? | • I ba raddau rydym yn trefnu ardal briodol i fodloni patrymau gorffwys a chysgu plentyn unigol. A yw'n ddigonol i bob plentyn ifanc yn ein gofal?<br>• Pa mor effeithiol yw ein prosesau i sicrhau y cedwir golwg parhaus ar blant ifanc sy'n cysgu? A ydym yn deall pam mae pob un o'r prosesau hyn ar waith?<br>• I ba raddau mae ein prosesau a'n hardaloedd cysgu yn bodloni gofynion y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn monitro ac yn rhoi meddyginiaeth i fabanod a phlant bach yn briodol. | • I ba raddau mae ein gweithdrefnau a'n polisi ynglŷn â meddyginiaethau yn dilyn y canllawiau diweddaraf? Sut rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r polisi?<br>• Sut rydym yn sicrhau y ceir tystiolaeth o gytundeb y rhiant/gofalwr cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth i'r baban, ac y caiff ei rhoi gan ddeall sgil-effeithiau posibl y feddyginiaeth?<br>• I ba raddau y caiff cofnodion eu cadw o'r holl feddyginiaethau a roddir i fabanod, ac a ofynnir i rieni/gofalwyr gydnabod yn ysgrifenedig bod y feddyginiaeth wedi'i rhoi?<br>• I ba raddau rydym yn cynnal ein cymwysterau i roi meddyginiaeth?<br>• Sut a phryd y byddem yn penderfynu peidio â rhoi meddyginiaeth?<br>• Wrth roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn y mae angen gwybodaeth dechnegol neu feddygol i'w rhoi, sut rydym yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol pob baban? | • I ba raddau mae ein gweithdrefnau a'n polisi ynglŷn â meddyginiaethau yn dilyn y canllawiau diweddaraf? Sut rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r polisi?<br>• Sut rydym yn sicrhau y ceir tystiolaeth o gytundeb y rhiant/gofalwr cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth i'r plentyn bach, ac y caiff ei rhoi gan ddeall sgil-effeithiau posibl y feddyginiaeth?<br>• I ba raddau y caiff cofnodion eu cadw o'r holl feddyginiaethau a roddir i blant bach, ac a ofynnir i rieni/gofalwyr gydnabod yn ysgrifenedig bod y feddyginiaeth wedi'i rhoi?<br>• I ba raddau rydym yn cynnal ein cymwysterau i roi meddyginiaeth?<br>• Sut a phryd y byddem yn penderfynu peidio â rhoi meddyginiaeth?<br>• Wrth roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn y mae angen gwybodaeth dechnegol neu feddygol i'w rhoi, sut rydym yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn bach? | • I ba raddau mae ein gweithdrefnau a'n polisi ynglŷn â meddyginiaethau yn dilyn y canllawiau diweddaraf? Sut rydym yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r polisi?<br>• Sut rydym yn sicrhau y ceir tystiolaeth o gytundeb y rhiant/gofalwr cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth i'r plentyn ifanc, ac y caiff ei rhoi gan ddeall sgil-effeithiau posibl y feddyginiaeth?<br>• I ba raddau y caiff cofnodion eu cadw o'r holl feddyginiaethau a roddir i blant ifanc, ac a ofynnir i rieni/gofalwyr gydnabod yn ysgrifenedig bod y feddyginiaeth wedi'i rhoi?<br>• I ba raddau rydym yn cynnal ein cymwysterau i roi meddyginiaeth?<br>• Sut a phryd y byddem yn penderfynu peidio â rhoi meddyginiaeth?<br>• Wrth roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn y mae angen gwybodaeth dechnegol neu feddygol i'w rhoi, sut rydym yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn ifanc? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn cynllunio ar gyfer anghenion maethol babanod a phlant ifanc ac yn eu diwallu yn unol â dymuniadau'r rhieni ac arferion gorau a chanllawiau cyfredol. | • Pa mor dda y caiff llaeth y fron a llaeth fformiwla eu storio a sut y caiff poteli eu paratoi?<br>• I ba raddau y cynllunnir ar gyfer amseroedd bwydo a sut y caiff arferion beunyddiol unigol eu dilyn?<br>• I ba raddau mae amseroedd bwydo yn hyrwyddo ymlyniadau a lles y baban?<br>• I ba raddau y caiff dymuniadau baban a'i rieni eu hystyried wrth ddiddyfnu?<br>• I ba raddau rydym yn bodloni gofynion deietegol pob baban?<br>• I ba raddau y caiff cofnodion o'r hyn y bydd baban yn ei fwyta bob dydd eu cadw a'u rhannu â'i rhieni/gofalwyr?<br>• I ba raddau y caiff anghenion hydradu baban eu diwallu? A ydym yn defnyddio ardal lle ceir cyflenwad o ddŵr yfed?<br>• I ba raddau rydym yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i rieni fwydo ar y fron? | • I ba raddau y caiff y canllawiau ar fwyd a maeth eu hymgorffori er mwyn sicrhau ein bod yn darparu prydau bwyd cytbwys â chyfrannau o faint priodol, ar adegau rheolaidd gyda chyfnodau rheolaidd rhyngddynt?<br>• I ba raddau rydym yn bodloni gofynion deietegol pob plentyn bach?<br>• I ba raddau rydym yn annog plant bach, lle y bo'n briodol, i fwyta drostynt eu hunain? A ydym yn darparu cyllyll a ffyrc ac offer priodol?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am gynlluniau prydau bwyd eu plentyn bach a'r hyn y mae'n ei fwyta a'i yfed bob dydd?<br>• I ba raddau rydym yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i rieni fwydo ar y fron?<br>• I ba raddau y caiff anghenion hydradu plentyn bach eu diwallu? Sut rydym yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael yn rheolaidd?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried cynnwys bwydydd o ddiwylliannau eraill? | • I ba raddau y caiff y canllawiau ar fwyd a maeth eu hymgorffori er mwyn sicrhau ein bod yn darparu prydau bwyd cytbwys â chyfrannau o faint priodol, ar adegau rheolaidd gyda chyfnodau rheolaidd rhyngddynt?<br>• I ba raddau rydym yn bodloni gofynion deietegol pob plentyn ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn helpu plant ifanc i ddod yn annibynnol yn ystod amseroedd bwyd a byrbryd?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr am gynlluniau prydau bwyd eu plentyn ifanc a'r hyn y mae'n ei fwyta a'i yfed bob dydd?<br>• I ba raddau rydym yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i rieni fwydo ar y fron?<br>• I ba raddau y caiff anghenion hydradu plentyn ifanc eu diwallu? Sut rydym yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael yn rheolaidd?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried cynnwys bwydydd o ddiwylliannau eraill? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio ein harsylwadau a'n gwybodaeth am anghenion a diddordebau babanod a phlant ifanc yn effeithiol i'w helpu i ddatblygu. | • I ba raddau rydym yn arsylwi babanod yn agos ac yn dod i adnabod a deall eu personoliaethau'n dda er mwyn sicrhau y gallwn barchu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol ac ymateb iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o arsylwadau gan ymarferwyr eraill yn gyson i gyd-gynllunio ar gyfer y dyfodol?<br>• I ba raddau rydym yn arsylwi datblygiad a sgiliau chwarae babanod yn gyson, ac yn eu hasesu?<br>• I ba raddau mae ein harsylwadau yn nodi cryfderau pob baban, meysydd i'w datblygu a'i gynnydd yn llwyddiannus?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu o arsylwadau, e.e. mewn gwaith cynllunio ac wrth ei rhannu â gweithwyr proffesiynol?<br>• I ba raddau rydym yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ac yn eu cefnogi gydag arsylwadau? I ba raddau rydym yn eu helpu i hyrwyddo cynnydd eu baban? | • I ba raddau rydym yn arsylwi plant bach yn agos ac yn dod i adnabod a deall eu personoliaethau'n dda er mwyn ymateb i'w hanghenion a'u dewisiadau unigol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o arsylwadau gan ymarferwyr eraill yn gyson i gyd-gynllunio ar gyfer y dyfodol?<br>• I ba raddau rydym yn arsylwi datblygiad a sgiliau chwarae plant bach yn gyson, ac yn eu hasesu?<br>• I ba raddau mae ein harsylwadau yn nodi cryfderau pob plentyn bach, meysydd i'w datblygu a'i gynnydd yn llwyddiannus?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu o arsylwadau yn effeithiol, e.e. mewn gwaith cynllunio ac wrth ei rhannu â gweithwyr proffesiynol?<br>• I ba raddau rydym yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ac yn eu cefnogi gydag arsylwadau? I ba raddau rydym yn eu helpu i hyrwyddo cynnydd eu plentyn bach? | • I ba raddau rydym yn arsylwi plant ifanc yn agos ac yn dod i adnabod a deall eu personoliaethau'n dda er mwyn ymateb i'w hanghenion a'u dewisiadau unigol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o arsylwadau gan ymarferwyr eraill yn gyson i gyd-gynllunio ar gyfer y dyfodol?<br>• Pa mor aml rydym yn arsylwi sgiliau chwarae, dysgu a datblygiad plant ifanc yn gyson, ac yn eu hasesu?<br>• I ba raddau mae ein harsylwadau yn nodi cryfderau pob plentyn ifanc, meysydd i'w datblygu a'i gynnydd yn llwyddiannus?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu o arsylwadau yn effeithiol, e.e. mewn gwaith cynllunio ac wrth ei rhannu â gweithwyr proffesiynol?<br>• I ba raddau rydym yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ac yn eu cefnogi gydag arsylwadau? I ba raddau rydym yn eu helpu i hyrwyddo cynnydd eu plentyn ifanc? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn cefnogi sgiliau cyfathrebu a datblygiad ieithyddol pob baban a phlentyn ifanc. Rydym yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi dwyieithrwydd. | • I ba raddau rydym yn dangos rhyngweithiadau o safon, rhai geiriol a dieiriau?<br>• I ba raddau rydym yn meddwl am y ffordd rydym yn cyfathrebu â babanod yn ystod arferion beunyddiol a phrofiadau? I ba raddau rydym yn defnyddio cyswllt llygad, ystum, tôn y llais a chyflymder iaith lafar yn effeithiol? I ba raddau rydym yn ystyried sut mae babanod yn ymgysylltu ag ymarferwyr a'n hagosrwydd corfforol?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried sut i ddynesu at fabanod?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio amser un i un gyda babanod ac yn ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau fel dynwared mynegiant wyneb, annog chwarae â sŵn, cadw cyswllt llygad wrth fwydo â photel, eistedd ar uchder y baban ar gyfer prydau bwyd?<br>• I ba raddau rydym yn deall a gweithredu ar giwiau cyfathrebu geiriol a dieiriau babanod?<br>• I ba raddau rydym yn annog cyfathrebu e.e. defnyddio sylwebaeth, caneuon sy'n lleddfu?<br>• I ba raddau y mae ein gwaith cynllunio, o fewn arferion beunyddiol a phrofiadau, yn meithrin sgiliau cyfathrebu babanod, gan gynnwys eu sgiliau iaith, ac yn eu cyfoethogi?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod babanod yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau, mewn grwpiau ac yn unigol?<br>• I ba raddau y caiff yr angen am amser grŵp ac amser un i un ei reoli er mwyn cefnogi cyfathrebu? | • I ba raddau rydym yn dangos rhyngweithiadau o safon, rhai geiriol a dieiriau?<br>• I ba raddau rydym yn meddwl am y ffordd rydym yn cyfathrebu â phlant bach yn ystod arferion beunyddiol a phrofiadau? I ba raddau rydym yn defnyddio cyswllt llygad, ystum, tôn y llais a chyflymder iaith lafar yn effeithiol? I ba raddau rydym yn ystyried sut mae plant bach yn ymgysylltu ag ymarferwyr a'n hagosrwydd corfforol?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried sut i ddynesu at blant bach?<br>• Sut rydym yn sicrhau y defnyddir yr eirfa a'r derminoleg gywir?<br>• I ba raddau rydym yn deall a gweithredu ar giwiau cyfathrebu geiriol a dieiriau plant bach?<br>• Pa mor llwyddiannus rydym yn dod i wybod ym mha ffordd y mae'n well gan bob plentyn bach gyfathrebu, ac i ba raddau rydym yn defnyddio'r ffordd hon i annog cyfathrebu effeithiol?<br>• I ba raddau rydym yn annog a chefnogi cyfathrebu ar gyfer bob plentyn bach, e.e. defnyddio cwestiynau penagored?<br>• I ba raddau y mae ein gwaith cynllunio, o fewn arferion beunyddiol a phrofiadau, yn meithrin sgiliau cyfathrebu plant bach, gan gynnwys eu sgiliau iaith, ac yn eu cyfoethogi?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod plant bach yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau, mewn grwpiau ac yn unigol?<br>• I ba raddau y caiff yr angen am amser grŵp ac amser un i un ei reoli er mwyn cefnogi cyfathrebu? | • I ba raddau rydym yn dangos rhyngweithiadau o safon, rhai geiriol a dieiriau?<br>• I ba raddau rydym yn meddwl am y ffordd rydym yn cyfathrebu â phlant ifanc yn ystod arferion beunyddiol a phrofiadau? I ba raddau rydym yn defnyddio cyswllt llygad, ystum, tôn y llais a chyflymder iaith lafar yn effeithiol? I ba raddau rydym yn ystyried sut mae plant ifanc yn ymgysylltu ag ymarferwyr a'n hagosrwydd corfforol?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried y ffordd rydym yn tynnu sylw plentyn ifanc?<br>• Sut rydym yn sicrhau y defnyddir yr eirfa a'r derminoleg gywir?<br>• I ba raddau rydym yn deall a gweithredu ar giwiau cyfathrebu geiriol a dieiriau plant ifanc?<br>• Pa mor llwyddiannus rydym yn dod i wybod ym mha ffordd y mae'n well gan bob plentyn ifanc gyfathrebu, ac i ba raddau rydym yn defnyddio'r ffordd hon i annog cyfathrebu effeithiol?<br>• I ba raddau rydym yn annog a chefnogi cyfathrebu ar gyfer pob plentyn ifanc, er enghraifft, defnyddio meddwl ar y cyd parhaus?<br>• I ba raddau y mae ein gwaith cynllunio, o fewn arferion beunyddiol a phrofiadau, yn meithrin sgiliau cyfathrebu plant ifanc, gan gynnwys eu sgiliau iaith, ac yn eu cyfoethogi?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod plant ifanc yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau, mewn grwpiau ac yn unigol?<br>• I ba raddau y caiff yr angen am amser grŵp ac amser un i un ei reoli er mwyn cefnogi cyfathrebu? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn helpu babanod a phlant ifanc i ddeall a rheoli eu hymddygiad. | • Pa mor gyson rydym wrth hyrwyddo a dangos rhyngweithiadau cadarnhaol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ddatblygiad plant a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ymddygiad babanod?<br>• I ba raddau rydym yn helpu pob baban i ryngweithio'n gadarnhaol â'i gyfoedion ac oedolion yn y lleoliad? A ydym yn deall pam mae hyn yn bwysig?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein hamser ac yn rhoi ein sylw, yn ogystal â chynnig dulliau atgyfnerthu cadarnhaol, er mwyn helpu babanod i ddeall arferion a strwythur? | • Pa mor gyson rydym wrth hyrwyddo a dangos rhyngweithiadau cadarnhaol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ddatblygiad plant a'r effaith y mae hyn<br>• yn ei chael ar ymddygiad plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn helpu pob plentyn bach i ryngweithio'n gadarnhaol â'i gyfoedion ac oedolion yn y lleoliad? A ydym yn deall pam mae hyn yn bwysig?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein hamser ac yn rhoi ein sylw, yn ogystal â chynnig dulliau atgyfnerthu cadarnhaol, er mwyn helpu plant bach i ddeall strwythur a ffiniau? | • Pa mor gyson rydym wrth hyrwyddo a dangos rhyngweithiadau cadarnhaol?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth am ddatblygiad plant a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ymddygiad plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn helpu pob plentyn ifanc i ryngweithio'n gadarnhaol â'i gyfoedion ac oedolion yn y lleoliad neu'r ysgol? A ydym yn deall pam mae hyn yn bwysig?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio ein hamser ac yn rhoi ein sylw, yn ogystal â chynnig dulliau atgyfnerthu cadarnhaol, er mwyn helpu plant ifanc i ddeall strwythur a ffiniau? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae ein hymarfer yn gynhwysol, ac mae anghenion unigol plant wrth wraidd popeth a wnawn. | • Sut rydym yn gwybod ac yn sicrhau bod y ffordd y caiff y drefn feunyddiol a phrofiadau eu cynllunio yn ennyn diddordeb pob baban ac yn diwallu ei anghenion yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hymarfer yn gynhwysol, a bod anghenion unigol pob baban wrth wraidd popeth a wnawn?<br>• I ba raddau rydym yn nodi ac yn asesu anghenion unigol pob baban, ac yn ymateb iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd camau priodol pan gaiff anghenion dysgu ychwanegol eu nodi? I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion babanod unigol drwy ddarpariaeth chwarae ychwanegol neu gymorth strwythuredig gan oedolyn (os yw hynny'n ofynnol o dan God ADY Cymru 2021)?<br>• I ba raddau rydym ni'n defnyddio gwybodaeth ddiwylliannol h.y. nodweddion, hanes, gwerthoedd, credoau ac ymddygiadau, pob baban i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu deall?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gyda theuluoedd i rannu nodweddion tebyg a gwahanol o fewn y lleoliad, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach, a'u dathlu?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod y lleoliad yn hygyrch i oedolion a babanod? | • Sut rydym yn sicrhau bod y ffordd y caiff y drefn feunyddiol a phrofiadau eu cynllunio yn ennyn diddordeb pob plentyn bach ac yn diwallu ei anghenion yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hymarfer yn gynhwysol, a bod anghenion unigol pob plentyn bach wrth wraidd popeth a wnawn?<br>• I ba raddau rydym yn nodi ac yn asesu anghenion unigol pob plentyn bach, ac yn ymateb iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd camau priodol pan gaiff anghenion dysgu ychwanegol eu nodi? I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion plant bach unigol drwy ddarpariaeth chwarae ychwanegol neu gymorth strwythuredig gan oedolyn (os yw hynny'n ofynnol o dan God ADY Cymru 2021)?<br>• I ba raddau rydym ni'n defnyddio gwybodaeth ddiwylliannol h.y. nodweddion, hanes, gwerthoedd, credoau ac ymddygiadau, pob plentyn bach i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu deall?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gyda theuluoedd i rannu nodweddion tebyg a gwahanol o fewn y lleoliad, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach, a'u dathlu?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod y lleoliad yn hygyrch i oedolion a phlant bach? | • Sut rydym yn sicrhau bod y ffordd y caiff y drefn feunyddiol a phrofiadau eu cynllunio yn ennyn diddordeb pob plentyn ifanc ac yn diwallu ei anghenion yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hymarfer yn gynhwysol, a bod anghenion unigol pob plentyn ifanc wrth wraidd popeth a wnawn?<br>• I ba raddau rydym yn nodi ac yn asesu anghenion unigol pob plentyn ifanc, ac yn ymateb iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd camau priodol pan gaiff anghenion dysgu ychwanegol eu nodi? I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion plant ifanc unigol drwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol neu gymorth strwythuredig gan oedolyn (os yw hynny'n ofynnol o dan God ADY Cymru 2021)?<br>• I ba raddau rydym ni'n defnyddio gwybodaeth ddiwylliannol h.y. nodweddion, hanes, gwerthoedd, credoau ac ymddygiadau, pob plentyn ifanc i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu deall?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gyda theuluoedd i rannu nodweddion tebyg a gwahanol o fewn y lleoliad, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach, a'u dathlu?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod y lleoliad neu'r ysgol yn hygyrch i oedolion a phlant ifanc? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae pob ymarferydd yn ymgymryd â'i ddysgu a'i ddatblygiad proffesiynol personol ei hun ac yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddatblygiad babanod a phlant ifanc. | • I ba raddau rydym yn datblygu ein gwybodaeth am ddatblygiad cynnar plant yn barhaus er mwyn diwallu anghenion unigol babanod?<br>• Pa mor ymwybodol ydym o ddatblygiad corfforol babanod a'r cyngor ar osod babanod a'u dal? A ydym yn gwybod pwy i'w holi i gael cyngor penodol?<br>• I ba raddau mae'r hyfforddiant penodol rydym wedi ymgymryd ag ef er mwyn gweithio gyda babanod wedi gwella eu deilliannau?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd rhan mewn sgyrsiau am ein dysgu proffesiynol?<br>• I ba raddau y cawn ein cefnogi i roi gwybodaeth a sgiliau o'n dysgu proffesiynol ar waith?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein hymarfer myfyriol, e.e. defnyddio dyddiaduron myfyriol i gefnogi dysgu proffesiynol, hunanwerthuso a gwella personol ac mewn grŵp? | • I ba raddau rydym yn datblygu ein gwybodaeth am ddatblygiad cynnar plant yn barhaus er mwyn diwallu anghenion unigol plant bach?<br>• I ba raddau mae'r hyfforddiant penodol rydym wedi ymgymryd ag ef er mwyn gweithio gyda phlant bach wedi gwella eu deilliannau?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd rhan mewn sgyrsiau am ein dysgu proffesiynol?<br>• I ba raddau y cawn ein cefnogi i roi gwybodaeth a sgiliau o'n dysgu proffesiynol ar waith?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein hymarfer myfyriol, e.e. defnyddio dyddiaduron myfyriol i gefnogi dysgu proffesiynol, hunanwerthuso a gwella personol ac mewn grŵp? | • I ba raddau rydym yn datblygu ein gwybodaeth am ddatblygiad cynnar plant yn barhaus er mwyn diwallu anghenion unigol plant ifanc?<br>• I ba raddau mae'r hyfforddiant penodol rydym wedi ymgymryd ag ef er mwyn gweithio gyda phlant ifanc wedi gwella eu deilliannau?<br>• I ba raddau rydym yn cymryd rhan mewn sgyrsiau am ein dysgu proffesiynol?<br>• I ba raddau y cawn ein cefnogi i roi gwybodaeth a sgiliau o'n dysgu proffesiynol ar waith?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein hymarfer myfyriol, e.e. defnyddio dyddiaduron myfyriol i gefnogi dysgu proffesiynol, hunanwerthuso a gwella personol ac mewn grŵp? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae ein cyfleoedd datblygu proffesiynol yn ein galluogi i gynnig chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn ifanc. | • Sut rydym yn sicrhau proses sefydlu glir a chadarn i staff newydd neu staff presennol sy'n dechrau gofalu am fabanod?<br>• I ba raddau rydym yn annog ac yn cefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n diwallu anghenion pob baban ac ymarferydd mewn modd cynhwysol?<br>• I ba raddau rydym yn myfyrio ar effaith dysgu proffesiynol ar staff, darpariaeth a datblygiad babanod?<br>• I ba raddau rydym yn datblygu ac yn cynnal cyfleoedd Cymraeg i'r staff ac yn meithrin eu dealltwriaeth o Gynefin?<br>• A ydym yn ymwybodol o ragfarn diarwybod? Sut mae rhagfarn diarwybod – lle mae pobl yn gwneud rhagdybiaethau am eraill – yn cyflwyno her yn ein cymuned? | • Sut rydym yn sicrhau proses sefydlu glir a chadarn i staff newydd neu staff presennol sy'n dechrau gofalu am blant bach?<br>• I ba raddau rydym yn annog ac yn cefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n diwallu anghenion pob plentyn bach ac ymarferydd mewn modd cynhwysol?<br>• I ba raddau rydym yn myfyrio ar effaith dysgu proffesiynol ar staff, darpariaeth a datblygiad plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn datblygu ac yn cynnal cyfleoedd Cymraeg i'r staff ac yn meithrin eu dealltwriaeth o Gynefin?<br>• A ydym yn ymwybodol o ragfarn diarwybod? Sut mae rhagfarn diarwybod – lle mae pobl yn gwneud rhagdybiaethau am eraill – yn cyflwyno her yn ein cymuned? | • Sut rydym yn sicrhau proses sefydlu glir a chadarn i staff newydd neu staff presennol sy'n pontio i ddarpariaeth gofal ac addysg gynnar?<br>• I ba raddau rydym yn annog ac yn cefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n diwallu anghenion pob plentyn ac ymarferydd mewn modd cynhwysol?<br>• I ba raddau rydym yn myfyrio ar effaith dysgu proffesiynol ar staff, darpariaeth a datblygiad plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn datblygu ac yn cynnal cyfleoedd Cymraeg i'r staff ac yn meithrin eu dealltwriaeth o Gynefin?<br>• A ydym yn ymwybodol o ragfarn diarwybod? Sut mae rhagfarn diarwybod – lle mae pobl yn gwneud rhagdybiaethau am eraill – yn cyflwyno her yn ein cymuned? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio ein harsylwadau a'n gwaith cynllunio i sicrhau bod y ddarpariaeth i fabanod a phlant bach yn hyblyg, yn ymatebol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad. | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth o'n harsylwadau a'n hasesiadau i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer babanod?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi lles a datblygiad b baban?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein gwaith cynllunio yn hyblyg i ddiwallu anghenion sy'n datblygu babanod?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio mewn modd ymatebol a bwriadol er mwyn cefnogi gofal a chwarae babanod a'u hymestyn?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein harsylwadau ac yn myfyrio arnynt er mwyn gwella gweithgareddau i fabanod yn y dyfodol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod cyfleoedd a phrofiadau dan do ac yn yr awyr agored yn ddifyr ac yn briodol i gam datblygu bob plentyn? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth o'n harsylwadau a'n hasesiadau i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi lles a datblygiad pob plentyn bach?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ysgogir gan y plentyn a gweithgareddau a arweinir gan yr oedolyn sy'n diwallu anghenion unigol plant bach mewn modd hyblyg?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio mewn modd ymatebol a bwriadol er mwyn cefnogi gofal a chwarae plant bach a'u hymestyn?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein harsylwadau ac yn myfyrio arnynt er mwyn gwella gweithgareddau i blant bach yn y dyfodol?<br>• Sut rydym yn gwybod ac yn sicrhau bod cyfleoedd a phrofiadau dan do ac yn yr awyr agored yn ddifyr ac yn briodol i gam datblygu bob plentyn bach? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth o'n harsylwadau a'n hasesiadau i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig amrywiaeth o brofiadau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi lles a datblygiad pob plentyn ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig ac yn cynllunio cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ysgogir gan y plentyn a gweithgareddau a arweinir gan yr oedolyn sy'n diwallu anghenion unigol plant ifanc mewn modd hyblyg?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio mewn modd ymatebol a bwriadol er mwyn cefnogi dysgu a chwarae plant ifanc a'u hymestyn?<br>• I ba raddau rydym yn dogfennu ein harsylwadau ac yn myfyrio arnynt er mwyn gwella gweithgareddau i blant ifanc yn y dyfodol?<br>• Sut rydym yn gwybod ac yn sicrhau bod cyfleoedd a phrofiadau dan do ac yn yr awyr agored yn ddifyr ac yn briodol i gam datblygu bob plentyn ifanc? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn cefnogi babanod a phlant ifanc i feithrin eu sgiliau talu sylw, canolbwyntio a dyfalbarhad drwy gyfleoedd chwarae a dysgu chwareus. | • Sut rydym yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gadarn o ystyr 'rhyfeddu', a bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i brofi hyn?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi babanod i fod yn gymwys ac yn alluog ym mhopeth a wnânt?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi babanod i archwilio ac i ddilyn eu chwilfrydedd?<br>• I ba raddau rydym yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau hyblyg, ymatebol ac arloesol?<br>• Pa mor llwyddiannus mae ein gwaith cynllunio'n datblygu wrth i'r babanod symud drwy'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn rhannu'r un pleser â baban mewn modd diffuant? | • Sut rydym yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gadarn o ystyr 'rhyfeddu', a bod pob plentyn bach yn cael cyfleoedd i brofi hyn?<br>• I ba raddau rydym yn ymateb i ddiddordebau a chwilfrydedd unigol plant bach, ac yn cyfrannu atynt?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi plant bach i fod yn gymwys ac yn alluog ym mhopeth a wnânt?<br>• I ba raddau rydym yn deall pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i blant bach chwarae mewn cyd-destunau dilys?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi pwyslais priodol ar gyfnodau estynedig o chwarae?<br>• I ba raddau rydym yn gwerthfawrogi proses greadigol plant bach yn hytrach na'r canlyniad?<br>• I ba raddau rydym yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau hyblyg, ymatebol ac arloesol?<br>• Pa mor llwyddiannus mae ein gwaith cynllunio'n datblygu wrth i'r plant bach symud drwy'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio'r hyn rydym yn ei weld wrth arsylwi ar blant bach yn chwarae i nodi dysgu sgematig a chynllunio ar ei gyfer?<br>• I ba raddau rydym yn rhannu'r un pleser â phlentyn bach mewn modd diffuant? | • Sut rydym yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gadarn o ystyr 'rhyfeddu', a bod pob plentyn ifanc yn cael cyfleoedd i brofi hyn?<br>• I ba raddau rydym yn ymateb i ddiddordebau a chwilfrydedd unigol plant ifanc, ac yn cyfrannu atynt?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi plant ifanc i fod yn gymwys ac yn alluog ym mhopeth a wnânt?<br>• I ba raddau rydym yn deall pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i blant ifanc ddysgu drwy chwarae a chymryd rhan weithredol mewn cyd-destunau dilys?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi pwyslais priodol ar gyfnodau estynedig o chwarae?<br>• I ba raddau rydym yn gwerthfawrogi proses greadigol plant ifanc yn hytrach na'r canlyniad?<br>• I ba raddau rydym yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau hyblyg, ymatebol ac arloesol?<br>• Pa mor llwyddiannus mae ein gwaith cynllunio'n datblygu wrth i'r plant ifanc symud drwy'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio'r hyn rydym yn ei weld wrth arsylwi ar blant yn chwarae i nodi dysgu sgematig a chynllunio ar ei gyfer?<br>• I ba raddau rydym yn rhannu'r un pleser a brwdfrydedd â phlentyn ifanc mewn modd diffuant? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn sicrhau bod y cyfleoedd a'r profiadau dilys rydym yn eu cynnig, o dan do ac yn yr awyr agored, yn briodol i gam datblygu pob baban a phlentyn ifanc. | • Sut rydym yn sicrhau fod babanod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, e.e. amser bola babi, sesiynau cerddoriaeth a symud?<br>• I ba raddau mae'r cyfleoedd amlsynnwyr rydym yn eu cynnig i fabanod yn cefnogi eu datblygiad cyfannol?<br>• I ba raddau rydym yn datblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio babanod yn eu harferion beunyddiol a thrwy brofiadau llawn chwarae sy'n ennyn eu diddordeb?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig cyfleoedd i fabanod ddangos diddordeb mewn llyfrau, mwynhau eu cynnwys a dilyn eu straeon?<br>• I ba raddau rydym yn helpu babanod i ddathlu byw yng Nghymru mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn deall y llwybrau datblygiadol sy'n ymwneud â pherthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles a sut mae'r rhain yn cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad babanod?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi ac yn ehangu datblygiad babanod drwy roi amser a lle iddynt o fewn profiadau ac amgylcheddau, gan sicrhau ei fod yn deg ac yn rhesymol i bawb? | • Sut rydym yn sicrhau bod plant bach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n briodol i'w hanghenion datblygiadol? Sut mae'r rhain yn cael eu cynnwys fel rhan o'u trefn feunyddiol ac mewn profiadau wedi'u cynllunio?<br>• I ba raddau mae'r cyfleoedd rydym yn eu cynnig i blant bach yn eu helpu i ddod yn annibynnol ac yn hyderus, ac i wneud dewisiadau a phenderfyniadau?<br>• I ba raddau rydym yn datblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio plant bach yn eu harferion beunyddiol a thrwy brofiadau llawn chwarae sy'n ennyn eu diddordeb?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig cyfleoedd i blant bach ddangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys, gan ddilyn eu straeon ac ymuno ynddynt?<br>• I ba raddau mae'r cyfleoedd amlsynnwyr rydym yn eu cynnig i blant bach yn cefnogi eu datblygiad cyfannol?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi sgiliau creadigol plant bach? A ydynt yn mynegi eu hunain drwy amrywiaeth o gyfryngau gan ddefnyddio celf, cerddoriaeth, dawns, symudiad a chwarae rôl?<br>• I ba raddau rydym yn helpu plant bach i ddathlu byw yng Nghymru mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn deall y llwybrau datblygiadol sy'n ymwneud â pherthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles a sut mae'r rhain yn cefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi ac yn ehangu datblygiad plant bach drwy roi amser a lle iddynt o fewn profiadau ac amgylcheddau, gan sicrhau ei fod yn deg ac yn rhesymol i bawb? | • I ba raddau y gall plant ifanc feithrin sgiliau corfforol i'w galluogi i fod yn gorfforol egnïol, yn unol â'u gallu? A allant ddefnyddio adnoddau a chyfarpar mwy yn ogystal â thrin offer a deunyddiau llai er mwyn gwella eu rheolaeth?<br>• Sut ydym yn llwyddo i gefnogi a chynnal sgiliau meddwl a datrys problemau plant ifanc?<br>• I ba raddau mae'r cyfleoedd rydym yn eu cynnig i blant ifanc yn eu helpu i ddod yn annibynnol ac yn hyderus, ac i wneud dewisiadau a phenderfyniadau?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i blant ifanc brofi'r Gymraeg ac ymateb iddi mewn amrywiaeth o gyd-destunau?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi sgiliau cyfathrebu a llythrennedd plant ifanc drwy'r drefn feunyddiol gan ddefnyddio profiadau sy'n ennyn eu diddordeb ac amgylcheddau effeithiol?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi sgiliau rhifedd plant ifanc drwy'r drefn feunyddiol gan ddefnyddio profiadau sy'n ennyn eu diddordeb ac amgylcheddau effeithiol?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi sgiliau creadigol plant ifanc? A ydynt yn mynegi eu hunain drwy amrywiaeth o gyfryngau gan ddefnyddio celf, cerddoriaeth, dawns, symudiad a chwarae rôl?<br>• Sut rydym yn trochi plant ifanc mewn profiadau dilys a phwrpasol sy'n ymgorffori datblygiad sgiliau a chymwyseddau digidol yn eu bywydau bob dydd? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • I ba raddau rydym yn helpu plant ifanc i ddathlu byw yng Nghymru mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt?<br>• I ba raddau rydym yn meithrin ein dealltwriaeth o ofynion Cwricwlwm i Gymru?<br>• I ba raddau rydym yn deall y pum llwybr datblygu sy'n ymwneud â pherthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles, a sut mae'r rhain yn cefnogi dysgu a datblygiad plant fanc?<br>• I ba raddau rydym yn cynllunio mewn modd ymatebol a bwriadol er mwyn cefnogi dysgu a chwarae plant ifanc a'u hymestyn?<br>• I ba raddau rydym yn ehangu dysgu a chwarae plant ifanc drwy roi amser a lle iddynt o fewn profiadau ac amgylcheddau, gan sicrhau ei fod yn deg ac yn rhesymol i bawb? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae ein hamgylcheddau yn cefnogi llif cyfathrebu. | • ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu dan do, fel goleuadau, synau a lefel y sŵn, a chynllun yr ystafell?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu yn yr awyr agored, fel synau amgylcheddol, y tywydd a safle eistedd y baban yn y pram neu'r gadair wthio? | • I ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu dan do, fel goleuadau, synau a lefel y sŵn, a chynllun yr ystafell?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu yn yr awyr agored, fel synau amgylcheddol, y tywydd a safle eistedd y plentyn bach yn y gadair wthio? | • I ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu dan do, fel goleuadau, synau a lefel y sŵn, a chynllun yr ystafell?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried ffactorau a allai effeithio ar gyfathrebu yn yr awyr agored, fel synau amgylcheddol, y tywydd a safle eistedd y plentyn ifanc mewn sefyllfaoedd grŵp? |
| Mae ein hamgylcheddau yn adlewyrchu diddordebau babanod a phlant ifanc ac yn cefnogi eu datblygiad. | • I ba raddau rydym yn gwybod bod ein hamgylcheddau'n effeithiol i bob baban, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hamgylcheddau yn cynnwys ardaloedd i orffwys, cael amser tawel a chael cysur, yn ogystal â chyfleoedd chwarae corfforol ac archwiliadol?<br>• I ba raddau rydym yn ymateb i ddiddordebau ac anghenion unigol babanod o fewn yr amgylchedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau ar gael i bob baban, rhai sy'n briodol ac yn addas i'w anghenion?<br>• I ba raddau mae ein hamgylcheddau yn cynnig cyfleoedd i fabanod archwilio amrywiaeth o arwynebau a lefelau i gefnogi eu datblygiad cyfannol? | • I ba raddau rydym yn gwybod bod ein hamgylcheddau yn effeithiol i bob plentyn bach, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hamgylcheddau yn cynnwys ardaloedd i orffwys, cael amser tawel a chael cysur, yn ogystal â chyfleoedd chwarae corfforol ac archwiliadol?<br>• I ba raddau rydym yn ymateb i ddiddordebau ac anghenion plant bach unigol o fewn yr amgylchedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod adnoddau ar gael i ddiwallu anghenion pob plentyn bach?<br>• I ba raddau mae ein hamgylcheddau yn cynnig cyfleoedd i blant bach archwilio amrywiaeth o arwynebau a lefelau i gefnogi eu datblygiad cyfannol? | • I ba raddau rydym yn gwybod bod ein hamgylcheddau yn effeithiol i bob plentyn ifanc, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod ein hamgylcheddau yn cynnwys ardaloedd i orffwys, cael amser tawel a chael cysur, yn ogystal â chyfleoedd chwarae corfforol ac archwiliadol?<br>• I ba raddau rydym yn ymateb i ddiddordebau ac anghenion plant ifanc unigol o fewn yr amgylchedd?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod adnoddau ar gael i ddiwallu anghenion pob plentyn ifanc?<br>• I ba raddau mae ein hamgylcheddau yn cynnig cyfleoedd i blant ifanc archwilio amrywiaeth o arwynebau a lefelau i gefnogi eu datblygiad cyfannol? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | Rydym yn sicrhau bod ein hamgylchedd awyr agored yn cynnwys ardaloedd penodol a naturiol i chwarae, dysgu a gorffwys ac y caiff ei ddefnyddio bob dydd. | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio ardal chwarae awyr agored bob dydd i gefnogi lles a datblygiad babanod?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig profiadau i fabanod sy'n cynnwys deunyddiau cynaliadwy, anifeiliaid a garddio, drwy'r flwyddyn?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod ein hamgylchedd awyr agored yn cynnig ardal gyfoethog ac ysgogol i fabanod?<br>• I ba raddau mae'r amgylchedd rydym yn ei gynnig yn helpu babanod i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi babanod i archwilio eu ffiniau a rheoli risgiau?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn cefnogi'r amgylchedd dan do, yn hytrach na'i ddyblygu?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob tywydd er mwyn i fabanod gael profiad ohono? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio ardal chwarae awyr agored bob dydd i gefnogi lles a datblygiad plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn galluogi mynediad rhydd i'r amgylcheddau awyr agored?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig profiadau i blant bach sy'n cynnwys deunyddiau cynaliadwy, anifeiliaid a garddio, drwy'r flwyddyn?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod ein hamgylchedd awyr agored yn cynnig ardal gyfoethog ac ysgogol i blant bach?<br>• I ba raddau mae'r amgylchedd rydym yn ei gynllunio yn helpu plant bach i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi plant bach i archwilio eu ffiniau a rheoli risgiau?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn cefnogi'r amgylchedd dan do, yn hytrach na'i ddyblygu?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob tywydd er mwyn i blant bach gael profiad ohono? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio ardal chwarae awyr agored bob dydd, i gefnogi lles a datblygiad plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn galluogi mynediad rhydd i'r amgylcheddau awyr agored?<br>• I ba raddau rydym yn cynnig profiadau bywyd go iawn i blant ifanc sy'n cynnwys deunyddiau cynaliadwy, anifeiliaid a garddio, drwy'r flwyddyn?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau bod ein hamgylchedd awyr agored yn cynnig ardal gyfoethog ac ysgogol i blant ifanc?<br>• I ba raddau mae'r amgylchedd rydym yn ei gynllunio yn helpu plant ifanc i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus?<br>• I ba raddau rydym yn cefnogi plant ifanc i archwilio eu ffiniau a rheoli risgiau?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn cefnogi'r amgylchedd dan do, yn hytrach na'i ddyblygu?<br>• I ba raddau rydym yn annog plant ifanc i ofalu am yr amgylchedd awyr agored ac adnoddau naturiol?<br>• I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob tywydd er mwyn i blant ifanc gael profiad ohono? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn sicrhau diogelwch effeithiol yn ein hamgylcheddau. | • Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol yw ein harferion glanhau, dan do ac yn yr awyr agored? A ydynt yn adlewyrchu arferion ardderchog yn unol â Chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau Hylendid (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru?<br>• I ba raddau mae ein harferion rheoli heintiau yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch babanod yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau amgylcheddau effeithiol wrth ystyried polisïau ein lleoliad? | • Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol yw ein harferion glanhau, dan do ac yn yr awyr agored? A ydynt yn adlewyrchu arferion ardderchog yn unol â Chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau Hylendid (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru?<br>• I ba raddau mae ein harferion rheoli heintiau yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant bach yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau amgylcheddau effeithiol wrth ystyried polisïau ein lleoliad? | • Sut rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol yw ein harferion glanhau, dan do ac yn yr awyr agored? A ydynt yn adlewyrchu arferion ardderchog yn unol â Chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau Hylendid (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru?<br>• I ba raddau mae ein harferion rheoli heintiau yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant ifanc yn llwyddiannus?<br>• Sut rydym yn sicrhau amgylcheddau effeithiol wrth ystyried polisïau ein lleoliad neu ein hysgol? |
| Rydym wedi nodi risgiau i fabanod a phlant ifanc ac wedi'u lleihau. | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risgiau tân effeithiol a chynhwysfawr? I ba raddau mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n gyson?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn glir ynghylch sut i dywys babanod allan oddi ar y safle pe bai angen?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cyfleu gweithdrefnau brys yn glir i'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn nodi risgiau diangen i fabanod ac yn eu dileu cymaint â phosibl?<br>• I ba raddau rydym yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen i hybu diogelwch babanod a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gefnogi babanod i gymryd risgiau priodol? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risgiau tân effeithiol a chynhwysfawr? I ba raddau mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n gyson?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn glir ynghylch sut i dywys plant bach oddi ar y safle pe bai angen?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cyfleu gweithdrefnau brys yn glir i'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn nodi risgiau diangen i blant bach ac yn eu dileu cymaint â phosibl?<br>• I ba raddau rydym yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen i hybu diogelwch plant bach a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gefnogi plant bach i gymryd risgiau priodol? | • Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal gweithdrefnau ac asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risgiau tân effeithiol a chynhwysfawr? I ba raddau mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n gyson?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn glir ynghylch sut i dywys plant ifanc oddi ar y safle pe bai angen?<br>• Sut rydym yn sicrhau ein bod yn cyfleu gweithdrefnau brys yn glir i'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad neu'r ysgol?<br>• I ba raddau rydym yn nodi risgiau diangen i blant ifanc ac yn eu dileu cymaint â phosibl?<br>• I ba raddau rydym yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen i hybu diogelwch plant ifanc a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i'w cefnogi i gymryd risgiau priodol? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | Rydym yn myfyrio ar effaith ein hamgylcheddau ffisegol ac emosiynol ac yn ei monitro. | • I ba raddau rydym yn arsylwi'n rheolaidd ar yr amgylcheddau, gan gynnwys yr hyn y gall ac na all babanod gael gafael arno?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried yr wybodaeth ac yn ei defnyddio i werthuso'r angen am newidiadau ac addasiadau?<br>• Pa mor effeithiol yw ein lle i gael sgyrsiau cyfrinachol?<br>• I ba raddau mae ein cyfleusterau staff yn cefnogi lles, iechyd a diogelwch pob ymarferydd? | • I ba raddau rydym yn arsylwi'n rheolaidd ar yr amgylcheddau, gan gynnwys yr hyn y gall ac na all plant bach gael gafael arno?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried yr wybodaeth ac yn ei defnyddio i werthuso'r angen am newidiadau ac addasiadau?<br>• Pa mor effeithiol yw ein lle i gael sgyrsiau cyfrinachol?<br>• I ba raddau mae ein cyfleusterau staff yn cefnogi lles, iechyd a diogelwch pob ymarferydd? | • I ba raddau rydym yn arsylwi'n rheolaidd ar yr amgylcheddau, gan gynnwys yr hyn y gall ac na all plant ifanc gael gafael arno?<br>• I ba raddau rydym yn ystyried yr wybodaeth ac yn ei defnyddio i werthuso'r angen am newidiadau ac addasiadau?<br>• Pa mor effeithiol yw ein lle i gael sgyrsiau cyfrinachol?<br>• I ba raddau mae ein cyfleusterau staff yn cefnogi lles, iechyd a diogelwch pob ymarferydd? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Mae gennym weledigaeth a rennir ac rydym yn ei chyflawni ar y cyd ag eraill. | • Pa mor llwyddiannus rydym yn cynnwys partneriaid yn y broses o greu, datblygu a gwireddu gweledigaeth ein lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn gwerthuso'r ffordd y caiff y weledigaeth hon ei rhoi ar waith yn erbyn y deilliannau i fabanod?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn nodi eu hanghenion datblygu proffesiynol personol eu hunain yn ogystal â rhai'r staff yn y lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd yr ymarfer a'r ddarpariaeth i fabanod?<br>• I ba raddau rydym yn nodi'r angen am newid a sut mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y newid hwnnw'n cael ei roi ar waith yn llwyddiannus?<br>• Sut olwg sydd ar gydraddoldeb a thegwch yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad? Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid/ei wella? (angen gwirio dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng 'cydraddoldeb' a 'tegwch')<br>• A yw pawb yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad yn ymwybodol o degwch a chydraddoldeb? | • Pa mor llwyddiannus rydym yn cynnwys partneriaid yn y broses o greu, datblygu a gwireddu gweledigaeth ein lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn gwerthuso'r ffordd y caiff y weledigaeth hon ei rhoi ar waith yn erbyn y deilliannau i blant bach?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn nodi eu hanghenion datblygu proffesiynol personol eu hunain yn ogystal â rhai'r staff yn y lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd yr ymarfer a'r ddarpariaeth i blant bach?<br>• I ba raddau rydym yn nodi'r angen am newid a sut mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y newid hwnnw'n cael ei roi ar waith yn llwyddiannus?<br>• Sut olwg sydd ar gydraddoldeb a thegwch yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad? Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid/ei wella? (angen gwirio dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng 'cydraddoldeb' a 'tegwch')<br>• A yw pawb yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad yn ymwybodol o degwch a chydraddoldeb? | • Pa mor llwyddiannus rydym yn cynnwys partneriaid yn y broses o greu, datblygu a gwireddu gweledigaeth ein lleoliad?<br>• I ba raddau rydym yn gwerthuso'r ffordd y caiff y weledigaeth hon ei rhoi ar waith yn erbyn y deilliannau i blant ifanc?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn nodi eu hanghenion datblygu proffesiynol eu hunain yn ogystal â rhai'r saff yn y lleoliad neu'r ysgol?<br>• I ba raddau rydym yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd yr ymarfer a'r ddarpariaeth i blant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn nodi'r angen am newid a sut mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y newid hwnnw'n cael ei roi ar waith yn llwyddiannus?<br>• Sut olwg sydd ar gydraddoldeb a thegwch yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad? Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid/ei wella? (angen gwirio dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng 'cydraddoldeb' a 'tegwch')<br>• A yw pawb yng nghymuned y feithrinfa/lleoliad yn ymwybodol o degwch a chydraddoldeb? |

| Safon Ansawdd | | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|---|
| | Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn cefnogi ac yn herio pawb i wneud eu gorau. | • I ba raddau y mae'r arweinwyr yn cefnogi'r tîm i ddangos agweddau cadarnhaol at iechyd, lles, dysgu a chwarae yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel o ran gofal a chwarae yn ein lleoliad?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi gofal plant?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y llwybrau datblygu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad babanod? | • I ba raddau y mae'r arweinwyr, yn cefnogi'r tîm i ddangos agweddau cadarnhaol at iechyd, lles, dysgu a chwarae yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel o ran gofal a chwarae yn ein lleoliad?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi gofal plant?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y llwybrau datblygu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad plant bach? | • I ba raddau y mae'r arweinwyr yn cefnogi'r tîm i ddangos agweddau cadarnhaol at iechyd, lles, dysgu a chwarae yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored?<br>• I ba raddau y mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel o ran dysgu seiliedig ar chwarae, addysgu a gofal yn ein lleoliad neu yn ein hysgol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi gofal plant?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod y llwybrau datblygu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu a datblygiad plant ifanc? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn ifanc. | • I ba raddau mae ein holl bolisïau yn adlewyrchu'r gofal o ansawdd uchel rydym yn ei roi, ac i ba raddau rydym yn hyrwyddo ac yn parchu cydberthnasau ac yn cefnogi diogelwch, lles, annibyniaeth a hyder i bob baban yn ein hamgylcheddau meithringar, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol rydym yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ac arferion diogel?<br>• Sut rydym yn sicrhau cyfle cyfartal, i'r staff a'r babanod, drwy ein holl ymarfer a darpariaeth?<br>• Pa mor effeithiol ydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth ddiwylliannol i wneud i fabanod deimlo eu bod yn cael eu deall, ac yn defnyddio'r dreftadaeth a'r ieithoedd amrywiol o fewn y lleoliad?<br>• Pa mor llwyddiannus yw ein cynllun i gefnogi a meithrin sgiliau Cymraeg yng nghymuned ein lleoliad?<br>• Sut mae ein babanod yn cael budd o'n cymhareb oedolion i fabanod? A ydym yn cyrraedd y cyfraddau gofynnol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda babanod ag ADY a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol? | • I ba raddau mae ein holl bolisïau yn adlewyrchu'r gofal o ansawdd uchel rydym yn ei roi, ac i ba raddau rydym yn hyrwyddo ac yn parchu cydberthnasau ac yn sicrhau diogelwch, lles, chwarae, annibyniaeth a hyder i bob plentyn bach yn ein hamgylcheddau meithringar, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol rydym yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ac arferion diogel?<br>• Sut rydym yn sicrhau cyfle cyfartal, i'r staff a'r plant bach, drwy ein holl ymarfer a darpariaeth?<br>• Pa mor effeithiol ydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth ddiwylliannol i wneud i blant bach deimlo eu bod yn cael eu deall, ac yn defnyddio'r dreftadaeth a'r ieithoedd amrywiol o fewn y lleoliad?<br>• Pa mor llwyddiannus yw ein cynllun i gefnogi a meithrin sgiliau Cymraeg yng nghymuned ein lleoliad?<br>• Sut mae ein plant bach yn cael budd o'n cymhareb oedolion i blant bach? A ydym yn cyrraedd y cyfraddau gofynnol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda phlant bach ag ADY a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol? | • I ba raddau mae ein holl bolisïau yn adlewyrchu'r gofal o ansawdd uchel rydym yn ei roi, ac i ba raddau rydym yn hyrwyddo ac yn parchu cydberthnasau ac yn cefnogi diogelwch, lles, chwarae, annibyniaeth, dysgu a hyder i bob plentyn ifanc yn ein hamgylcheddau meithringar, dan do ac yn yr awyr agored?<br>• Pa mor effeithiol rydym yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch ac arferion diogel?<br>• Sut rydym yn sicrhau cyfle cyfartal, i'r staff a'r plant ifanc, drwy ein holl ymarfer a darpariaeth?<br>• I ba raddau mae cymuned y feithrinfa/lleoliad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn deilliannau addysg sy'n gysylltiedig â thlodi?<br>• Os ydym yn derbyn cyllid Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar, sut ydym ni wedi ei ddefnyddio i wneud gwahaniaeth i'r plant? Pa feysydd tegwch ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw?<br>• Pa mor effeithiol ydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth ddiwylliannol i wneud i fabanod deimlo eu bod yn cael eu deall, ac yn defnyddio'r dreftadaeth a'r ieithoedd amrywiol o fewn y lleoliad?<br>• Pa mor llwyddiannus yw ein cynllun i gefnogi a meithrin sgiliau Cymraeg yng nghymuned ein lleoliad neu ysgol?<br>• Sut mae ein plant ifanc yn cael budd o'n cymhareb oedolion i blant? A ydym yn cyrraedd y cyfraddau gofynnol?<br>• Sut rydym yn sicrhau bod digon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc ag ADY a'u bod yn cael eu defnyddio'n briodol? |

| Safon Ansawdd | Dyma fi! (0-1 oed) | Dwi'n archwilio! Edrycha arna i nawr! (1-3) | Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5) |
| --- | --- | --- | --- |
| Rydym yn rheoli ein staff a'n hadnoddau yn effeithiol iawn. | • I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau mwyaf diogel a chadarn wrth recriwtio?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi system effeithiol ar waith i oruchwylio ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio profiadau dysgu proffesiynol staff cyfan i ddatblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau? | • I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau mwyaf diogel a chadarn wrth recriwtio?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi system effeithiol ar waith i oruchwylio ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio profiadau dysgu proffesiynol staff cyfan i ddatblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau? | • I ba raddau rydym yn sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau mwyaf diogel a chadarn wrth recriwtio?<br>• I ba raddau rydym yn rhoi system effeithiol ar waith i oruchwylio ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio profiadau dysgu proffesiynol staff cyfan i ddatblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau? |
| Mae ein defnydd o waith monitro, hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn arwain at chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn ifanc. | • I ba raddau rydym yn monitro ein hymarfer a'n darpariaeth?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i nodi cryfderau'r lleoliad a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r ymarfer a'r ddarpariaeth i fabanod?<br>• Pa mor effeithiol ydym yn ystyried barn staff, rhieni/gofalwyr, ac eraill? A ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gefnogi gwelliannau ar gyfer babanod?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gydag eraill i ddatblygu ein hymarfer a'n darpariaeth? Sut ydym yn rhannu ein harferion da ein hunain?<br>• I ba raddau rydym yn blaenoriaethu'r materion rydym am eu gwella? Sut rydym yn penderfynu ar yr hyn sydd bwysicaf neu fwyaf brys?<br>• I ba raddau mae ein defnydd o gyllid yn arwain at welliannau i ansawdd gofal, chwarae a dysgu? I ba raddau rydym yn monitro ac yn cofnodi'r effaith ar ddatblygiad a lles babanod? | • I ba raddau rydym yn monitro ein hymarfer a'n darpariaeth?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i nodi cryfderau'r lleoliad a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r ymarfer a'r ddarpariaeth i blant bach?<br>• Pa mor effeithiol ydym yn ystyried barn staff, rhieni/gofalwyr, plant bach ac eraill? A ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gefnogi gwelliannau ar gyfer plant bach?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gydag eraill i ddatblygu ein hymarfer a'n darpariaeth? Sut ydym yn rhannu ein harferion da ein hunain?<br>• I ba raddau rydym yn blaenoriaethu'r materion rydym am eu gwella? Sut rydym yn penderfynu ar yr hyn sydd bwysicaf neu fwyaf brys?<br>• I ba raddau mae ein defnydd o gyllid yn arwain at welliannau i ansawdd gofal, chwarae a dysgu? I ba raddau rydym yn monitro ac yn cofnodi'r effaith ar ddatblygiad a lles plant bach? | • I ba raddau rydym yn monitro ein hymarfer a'n darpariaeth?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i nodi cryfderau'r lleoliad neu'r ysgol a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r ymarfer a'r ddarpariaeth i blant ifanc?<br>• Pa mor effeithiol ydym yn ystyried barn staff, rhieni/gofalwyr, plant ifanc ac eraill? A ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gefnogi gwelliannau ar gyfer plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn gweithio gydag eraill i ddatblygu ein hymarfer a'n darpariaeth? Sut ydym yn rhannu ein harferion da ein hunain?<br>• I ba raddau rydym yn blaenoriaethu'r materion rydym am eu gwella? Sut rydym yn penderfynu ar yr hyn sydd bwysicaf neu fwyaf brys?<br>• I ba raddau mae ein defnydd o gyllid yn arwain at welliannau i ansawdd gofal, chwarae a dysgu? I ba raddau rydym yn monitro ac yn cofnodi'r effaith ar ddatblygiad a lles plant ifanc?<br>• I ba raddau rydym yn defnyddio grantiau yn benodol i ddatblygu dysgu cynnar a sgiliau plant ifanc? |

# Cofnodi Sylwadau

| Safon Ansawdd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn Myfyriol | Nodiadau cychwynnol | Sylwadau myfyriol | Y Camau Nesaf | Dyddiad |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Gwneud Newidiadau

| Beth y byddwn yn dechrau ei wneud? | Beth y byddwn yn rhoi'r gorau i'w wneud? |
|---|---|
| | |
| **Beth y byddwn yn ei osgoi yn y dyfodol?** | **Beth y byddwn yn ei newid yn y dyfodol?** |
| | |

# Crynodeb Ansawdd

| Lleoliad/Ysgol: | Dyddiad: | |
|---|---|---|
| **Lles:** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |
| **Teuluoedd, y gymuned a phartneriaethau** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |
| **Gofal a datblygiad** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |

| Lleoliad/Ysgol: | Dyddiad: | |
|---|---|---|
| **Chwarae a dysgu** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |
| **Amgylcheddau** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |
| **Cymorth a dysgu proffesiynol** | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |

| Lleoliad/Ysgol: | Dyddiad: | |
|---|---|---|
| Arweinwyr | | |
| Beth rydym yn ei wneud yn dda? | Beth y mae angen inni ei wella? | Sut y byddwn yn gwneud hyn? |
| | | |

# Gwneud cynlluniau

| Targed: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa gamau y mae angen inni eu cymryd? | Pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Pwy fydd yn helpu? | Beth y bydd ei angen arnom? Faint y bydd yn ei gostio? | Sut beth yw llwyddiant?<br>Sut y byddwn yn gwybod? | Sut a phryd y byddwn yn monitro gwelliannau? |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Adnodd myfyrio i ymarferwyr

| | |
|---|---|
| Rwy'n myfyrio ar … | |
| Dyddiad: | |
| Beth rwyf wedi rhoi cynnig arno? | Beth rwyf wedi'i ddysgu? |
| | |
| Beth rwyf yn falch ohono? | Beth rwyf yn poeni amdano? |
| | |
| Beth sydd nesaf? | |
| | |

# Adnodd myfyrio i dimau

| Rwy'n myfyrio ar … | |
|---|---|
| Dyddiad: | |
| **Beth ydym wedi rhoi cynnig arno?** | **Beth ydym wedi'i ddysgu?** |
| | |
| **Beth ydym yn falch ohono?** | **Beth ydym yn poeni amdano?** |
| | |
| **Beth sydd nesaf?** | |
| | |